



Ein cyf/Our ref: DC/JJ/05066/19

At bob Pennaeth Cynllunio
Cyrff Cynrychiadol y Diwydiant Datblygu
Rhestr Ddosbarthu Adeiladwyr Cymorth i Brynu

06 Mehefin 2019

Annwyl Gyfeillion,

Rhoi Rhwydi o amgylch Coed a Pherthi

Rwy'n ysgrifennu atoch ynglŷn â'r arfer o roi rhwydi o amgylch coed a pherthi mewn safleoedd datblygu ac o'u cwmpas, cyn ac yn ystod gwaith adeiladu.

Yng Nghymru, mae gennym fframwaith deddfwriaethol a pholisi cryf i gynnal ac i wella bioamrywiaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gyflawni'r amcan hwn. Mae Polisi Cynllunio Cymru 10 yn glir bod gan y system gynllunio rôl i'w chwarae yn y gwaith o helpu i wrthdroi dirywiad bioamrywiaeth, ac i gynyddu cydnerthedd ecosystemau drwy sicrhau bod mecanweithiau ar waith i amddiffyn ecosystemau rhag dirywio, ac i sicrhau eu bod yn cael eu gwella.

Drwy drafodaethau cynnar dylai datblygwyr osgoi'r amgylchiadau hynny sy'n gwneud defnyddio rhwydi'n ofynnol. Mae Polisi Cynllunio Cymru 10 yn amlinellu dull cam wrth gam ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth drwy sicrhau bod effeithiau amgylcheddol andwyol yn cael eu hosgoi yn y lle cyntaf (h.y. dylid cadw coed a pherthi sydd eisoes yn bodoli yn nyluniad y prosiect), ac wedyn eu lleihau neu eu lliniaru – dylai camau cydadfer fod yr opsiwn olaf.

Nid wyf yn cefnogi defnyddio rhwydi fel rheol. Dim ond fel yr opsiwn olaf y dylid defnyddio rhwydi, ar ôl ystyried yr holl opsiynau eraill a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol. Pan fyddant yn cael eu defnyddio, ni ddylent gael eu defnyddio ond ar ôl i ganiatâd cynllunio gael ei roi.

(Mae rhagor o arweiniad ar reoli'r defnydd o rwydi a'r amgylchiadau eithriadol a chyfyngedig iawn lle y gellir eu defnyddio yn cael ei ddarparu gan Sefydliad Siartredig Rheoli Ecoleg a'r Amgylchedd (CIEEM) yn <https://cieem.net/cieem-and-rspb-advise-against-netting-on-hedges-and-trees/>)

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae defnyddio rhwydi yn ystod cyfnodau adeiladau cynllun yn dangos diffyg cydbwysedd y berthynas rhwng y gymdeithas a natur mewn modd cyhoeddus iawn Mae'n hanfodol bod pawb sy'n gysylltiedig â'r broses ddatblygu yn gyfarwydd â deddfwriaeth a pholisi ehangach Llywodraeth Cymru ac yn cyfrannu at y gwaith o'u rhoi ar waith er mwyn cynnal a gwella bioamrywiaeth.

Yn gywir,



Julie James AC/AM

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government